**20fed Ebrill 2021**

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys**

**Ymateb i: Defnydd anghymesur o rymoedd yr heddlu – Sbotolau ar stopio a chwilio a'r defnydd o rym**

Rwyf yn croesawu'r adroddiad a'i argymhellion - y mae nifer ohonynt eisoes yn weithredol yma yn Nyfed-Powys, sy'n galonogol.

Mae'r adroddiad yn amlygu lle y mae heddluoedd yn gwneud yn dda, a lle y gallant wella ac rwyf wedi fy sicrhau bod Heddlu Dyfed-Powys, gyda chefnogaeth fy swyddfa i ac aelodau gwirfoddol o'r gymuned, yn cynnal trosolwg cadarn o bob cysylltiad stopio a chwilio gydag unigolion o leiafrifoedd ethnig ac o gefndiroedd nad ydynt yn wyn.

Gwnaed buddsoddiad i ddarparu camera'r corff ar gyfer pob swyddog rheng flaen nifer o flynyddoedd yn ôl, ac rydym yn gweld cyfradd gynyddol o'r rhain yn cael eu defnyddio i arddangos rhesymwaith ac ymddygiad swyddogion wrth ddefnyddio'u grymoedd.

Er nad oes gennym unrhyw achos i bryderu bod swyddogion yn ymddwyn yn annheg, mae gwaith sylweddol yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd i sicrhau bod tystiolaeth o hyn a'i fod yn cael ei adolygu mewn modd cadarn a chyson.

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi sefydlu grŵp gwelliant stopio a chwilio er mwyn cynnal trosolwg i sicrhau bod y modd y mae swyddogion yn ymddwyn ac yn recordio stopio a chwilio yn llwyr gydymffurfio â deddfwriaeth ac Ymarfer Proffesiynol Cymeradwy. Y mae hefyd yn sicrhau bod prosesau'n cael eu gweithredu er mwyn adnabod ac ymdrin yn effeithiol gydag unrhyw anghymesuredd dichonol mewn perthynas ag amrywiaeth.

Yn dilyn cyngor gan yr Arolygiaeth, mae'r adroddiad chwarterol ar berfformiad stopio a chwilio wedi ei ehangu'n sylweddol er mwyn darparu dealltwriaeth ddyfnach o'r data, a chraffir ar hyn gan fy swyddfa i a'r grŵp Defnydd Moesegol o Rymoedd yr Heddlu. Mae gan yr Heddlu hefyd drefniadau ar gyfer archwiliadau trylwyr, sy'n cynnwys pob cofnod lleiafrif ethnig a heb fod yn wyn yn cael eu hadolygu'n ganolog. Mae camau eisoes yn cael eu cyflawni i sicrhau bod yr archwiliadau hyn hefyd yn cynnwys ystyried y ffilmiau cyfatebol o Gamerâu'r Corff.

Y mae fy Mhanel Sicrhau Ansawdd a'r Cyd-Grŵp Ymgynghorol Annibynnol yn ymgymryd â gwaith craffu hap sampl o stopio a chwilio, gyda'r Panel Sicrhau Ansawdd hefyd yn gyfnodol yn adolygu digwyddiadau lle defnyddiwyd grym. Mae'r adolygiadau hyn yn cynnwys ystyried ffilmiau o Gamerâu'r Corff ochr yn ochr â'r ffurflenni electronig er mwyn caniatáu i Aelodau annibynnol wneud dyfarniad ar sail gwybodaeth ynghylch cymesuredd y defnydd o'r grymoedd hyn gan yr heddlu.

Y mae gwaith hefyd yn parhau o fewn yr Heddlu i ennill dealltwriaeth o unrhyw rwystrau sy’n gysylltiedig â defnydd teg ac effeithiol o stopio a chwilio. Mae’r dysgu’n cael ei ddefnyddio i hysbysu stopio a chwilio yn y dyfodol a hyfforddiant rhagfarn ddiarwybod i swyddogion.

Mae Heddlu Dyfed-Powys a fy swyddfa i’n parhau i weithio i ymgysylltu gyda’n cymunedau er mwyn cynyddu gwell cynrychiolaeth o fewn y sefydliad, yn ogystal ag annog cyfraniad mwy amrywiol o fewn paneli craffu allanol.